# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Philip Downing | **Adran Etholiadol:** | Pontarddulais |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Datblygu |
|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais ddwy gymhorthfa gyngor y mis yng Nghanolfan y Bont rhwng 5.00 a 7.00pm, lle daeth etholwyr i drafod unrhyw bwnc. Euthum i'r cyfarfodydd PACT lleol yn rheolaidd ac ymdrin â chwynion ac ymholiadau a gododd.

Fel aelod o gyngor y dref, roedd yn anrhydedd i mi gael f'ethol yn faer y dref. Heblaw am un, euthum i holl gyfarfodydd y cyngor tref yn ystod y flwyddyn. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn a gwybodaeth arall i'w gweld ar wefan y cyngor yn www.pontarddulaistowncouncil.gov.uk. Fi yw Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Mae'r cyngor tref yn darparu amrywiaeth o wasanaethau lleol, gan gynnwys: trefnu i'r sefydliad ddarparu lle ar gyfer sefydliadau cymunedol, lle swyddfa i'r heddlu, arddangosfeydd blodau yn y dref. Dangosiadau ffilm i blant, cyfraniadau i Orymdaith y Nadolig, addurniadau, coed a phantomeim. Grantiau ariannol i achosion teilwng.
Rwy'n llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Pontarddulais a fi yw Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau/Personél. Hefyd, fi yw Is-gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Pontarddulais.
Fi yw Llywydd Clwb Pêl-droed Pontarddulais. Mae'r clwb wedi mynd o nerth i nerth dros y blynyddoedd ac, erbyn hyn, mae ganddo 12 tîm iau gan gynnwys un tîm merched ac un tîm menywod, yn ogystal â 2 dîm hŷn.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

*Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.*

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau | 1 | / | 2 | 50 | % |
| Y Cyngor | 18 | / | 18 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 11 | / | 11 | 100 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar yr Economi a Buddsoddi | 4 | / | 4 | 100 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 13 | / | 16 | 81 | % |
| Pwyllgor y Gronfa Bensiwn | 4 | / | 4 | 100 | % |
| Pwyllgor Cynllunio | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Pwyllgor Safonau | 1 | / | 3 | 33 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Statudol | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **62** | **/** | **70** | 89 | **%** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
| Gweithgor Craffu Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy | 2 | / | 5 | 40 | % |
| Panel Perfformiad Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid | 7 | / | 11 | 64 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Strydlun | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Gweithgor Craffu Safon Ansawdd Tai Cymru | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **11** | **/** | **18** | 61 | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Roeddwn yn Ddirprwy Aelod y Cabinet; roedd hyn yn cynnwys trafod pynciau penodol a roddwyd i mi gan Aelodau'r Cabinet. Fel Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Datblygu, byddem yn edrych ar bolisïau'r cyngor ac yn gwneud awgrymiadau i Aelod perthnasol y Cabinet, a fyddai, os byddent yn cael eu derbyn, yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet eu mabwysiadu.

Fi oedd Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu, sy'n edrych ar yr holl geisiadau trwyddedu yn Ninas a Sir Abertawe.

Hefyd, fi yw Is-gadeirydd Panel Cronfa Bensiwn y cyngor.

Un o'r cyrff allanol rwyf wedi bod yn aelod ohono yw'r Tribiwnlys Prisio, sy'n edrych ar apeliadau gan fusnesau ac unigolion sy'n cwyno am eu gwerthoedd ardrethol.
Cefais nifer sylweddol o alwadau ffôn a phobl yn galw i'm tŷ'n ceisio cyngor a chymorth ar amrywiaeth o faterion. Gyda 281 o dai'r cyngor ym Mhontarddulais, roedd cryn nifer o ymholiadau'n ymwneud â'r rhain. Rwyf bob amser yn barod i wrando ar eu pryderon a chynnig cyngor a chefnogaeth briodol.

Roeddwn yn cerdded ac yn gyrru yn y ward yn rheolaidd, yn siarad ag etholwyr, ac yn rhoi gwybod am ddiffygion palmant megis tyllau yn y ffordd, goleuadau stryd nad ydynt yn gweithio mewn ardaloedd preswyl, arwyddion ffordd wedi'u difrodi a thipio anghyfreithlon.

## Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig

Gwnaethom ddefnyddio'n cyllideb gymunedol i osod llinellau melyn dwbl mewn lleoliadau amrywiol. Addasiadau i'r gilfach barcio ar Stryd Teilo Sant. (y tu allan i Arwel’s). Gosod bolardiau ar Heol Goppa i sicrhau diogelwch cerddwyr. Paentio a newid ffenestri i nifer o safleoedd bws. Lluniwyd cynlluniau a chytunwyd arnynt ar gyfer croesfan cerddwyr ar Heol Bolgoed, hefyd lluniwyd cynlluniau ar gyfer gostegu traffig ar Heol Glynhir. Sefydlu parth 20mya o gwmpas ein hysgolion a'r ardaloedd cyfagos.

Yn dilyn sylwadau gan etholwyr, caffaelais welliannau ffyrdd a phalmentydd.
Darperais gefnogaeth ar ôl derbyn sylwadau gan etholwyr trwy'r broses ddeiseb a rhoddais gefnogaeth barhaol a chyd-drafod dros ddymuniadau poblogaeth Pontarddulais lle roedd tystiolaeth o bryder, potensial ar gyfer datblygu gwasanaethau a ffordd well o fyw a’r angen i gefnogi datblygiadau posibl er lles y gymuned.

## Adran 5: Dysgu a datblygu

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

13/04/2016 - A. 106 Cytundebau/Rhwymedigaethau Cynllunio

08/03/2016 - Deddf Cynllunio Cymru - Gweithdrefnau Rheoli Datblygu
05/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned
29/10/2015 - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Euthum i gyfarfodydd Partneriaeth Adnewyddu Pontarddulais yn rheolaidd yr wyf yn aelod ohoni. Mae'r bartneriaeth yn gweithio gydag etholwyr Pontarddulais i asesu anghenion y gymuned, cael mynediad i grantiau, cefnogi cyflwyno datblygiadau a sicrhau cynaladwyedd ar gyfer prosiectau parhaus. Cynnal a chadw a datblygu'r ganolfan hyfforddiant, Canolfan y Bont, yn barhaol a'r daflen gymunedol, Bwletin y Bont.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £22,000 Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Datblygu

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 18.05.2016 |